# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol: | Cyf y Canllaw i Ymarferwyr |
|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | | |
| **1.** Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | ☑ | ☐ | Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | ☑ | ☐ | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| **3.** Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/ Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol. | ☑ | ☐ | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| **4.** Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | ☑ | ☐ | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad. | 6, 23 |
| **5.** Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | ☑ | ☐ | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff ac ymdrin â hwy'n briodol. | 6, 9 |
| **6.** Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | ☑ | ☐ | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff. | 6, 8 |
| **7.** Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | ☑ | ☐ | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |
| **8.** Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | ☑ | ☐ | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

| | Do | Naddo | Amh | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **9.** Cronfeydd ymddiriedolaeth – Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ar gyfer cronfa (cronfeydd)/asedau ymddiriedolaeth ac yn gyfrifol am eu reoli. Rydym yn eithrio trafodion sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolaethau hyn o'r Datganiad Cyfrifeg. Yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas â'r atebolrwydd dros y gronfa(cronfeydd) gan gynnwys adrodd ariannol ac, os oes angen, arolygiad neu archwiliad annibynnol. | ☐ | ☐ | ☑ | Cyflawni ei holl gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol. | 3, 6 |

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau